Crynodeb o'r rhaglen

Mae Safbwynt(iau) yn gydweithrediad newydd rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru, sy'n ceisio sicrhau newid sylweddol yn y modd y mae sector y celfyddydau gweledol a threftadaeth yn adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol ac ethnig ein cymdeithas.

Dros gyfnod o ddwy flynedd, bydd gweithwyr creadigol proffesiynol o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol yn gweithio gyda'r amgueddfeydd a sefydliadau'r celfyddydau gweledol, i lwyfannu straeon heb eu hadrodd, creu ymatebion artistig a gweithredu fel asiant ar gyfer newid. Mae'r rhaglen yn ceisio herio ffyrdd presennol o feddwl drwy ymgysylltu â chymunedau i archwilio'r celfyddydau gweledol a'r sector treftadaeth trwy lens gwrth-hiliaeth a dad-wladychol.

Crynodeb o'r sefydliadau

Mae **GS Artists Abertawe** yn brosiect artistiaid ar Stryd Fawr Abertawe. Wedi'i ffurfio yn 2014, mae wedi datblygu'n organig drwy artistiaid sy'n gwirfoddoli i gwmni dielw yn 2018, ac mae bellach yn cael ei redeg gan grŵp o artistiaid llawrydd, gyda pholisi tâl teg i bawb.
(www.galeriesimpsonswansea.com)
Dros y 5 mlynedd diwethaf rydym wedi gweithio'n helaeth gydag artistiaid newydd, wedi cefnogi cyflwyniadau unigol, cynnal sgyrsiau gan dros 50 o artistiaid, a datblygu prosiectau oddi ar y safle gyda grŵp o ymarferwyr creadigol sy'n pontio'r cenedlaethau yng Nghymru.
Rydym yr un mor ymroddedig i weithio gyda'n cymuned leol, ar ôl datblygu ein hymgysylltiad trwy brosiect â ffocws penodol - y Gymuned Greadigol 9 i 90 gyda'i gwefan bwrpasol ei hun (www.9to90creativecommunity.com). Trwy ymgynghori cyson mae'r 9 i 90 wedi symud ymlaen o brosiect allgymorth rhagnodol i un a arweinir gan y gymuned gyda chlwb celf wythnosol, wedi'i raglennu ac yn aml yn cael ei arwain gan ein gwirfoddolwyr.

Mae **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe,** yn rhan o Amgueddfa Cymru. Agorodd yr amgueddfa ei drysau yn 2005 ac mae wrth galon marina brysur Abertawe. Wedi'i lleoli mewn warws gwreiddiol ar y glannau wedi'i gysylltu ag adeilad llechi a gwydr hynod fodern, mae'r Amgueddfa'n archwilio effaith y Chwyldro Diwydiannol ar bobl a thirweddau Cymru. Mae hefyd yn dangos yr effaith aruthrol a gafodd glo, dur a haearn Cymru ar weddill y byd – a dylanwadau arloesi Cymreig heddiw.

Y rôl a'r hyn yr ydym yn edrych amdano

Ymarferydd creadigol i weithio gyda GS Artists Abertawe ac Amgueddfa

Genedlaethol y Glannau, Abertawe ar ffyrdd newydd o ddad-wladychu mannau cyhoeddus, gan weithredu fel ffrind beirniadol - asiant newid. Rydym am i chi gwestiynu a herio ffyrdd presennol o feddwl o fewn y sefydliadau drwy ymgysylltu â chymunedau i archwilio'r sector celfyddydau gweledol a threftadaeth trwy lens gwrth-hiliaeth a dad-wladychol.

Ynglŷn â'r allbwn creadigol:

Dylai fod gan yr ymarferydd creadigol y gallu i weithio'n sensitif mewn rhwydwaith cymhleth o randdeiliaid, a defnyddio dulliau cyfranogol i ymgysylltu â phrofiadau byw nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol a mynegi'r profiadau hynny, a chynhyrchu ystod o ddeunyddiau dehongli i ymgysylltu â'r gymuned ehangach.

Dylech ymgysylltu'n feirniadol â'r naratifau amlycaf sy'n parhau tangynrychiolaeth a meddu ar ddealltwriaeth o'r rhwystrau strwythurol a wynebir gan wahanol grwpiau o fewn cymdeithas. Dylech ddeall y cysylltiadau rhwng hanes, diwylliant a dychymyg cymdeithasol a mynd ati i herio rhagdybiaethau mewn ffordd adeiladol.

Gallech fod yn artist, yn wneuthurwr, yn ffotograffydd, yn wneuthurwr ffilmiau neu'n gweithio ym maes perfformio.

- Rydym yn chwilio am rywun sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol ac yn wleidyddol a all weithio gydag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe a Galerie Simpson i herio ac amharu ar etifeddiaeth wladychol a/neu gymryd rhan mewn gwrth-hiliaeth trwy arddangosfeydd, arddangosiadau, digwyddiadau neu berfformiadau posibl.

Rhaid i chi fod yn amrywiol yn ddiwylliannol ac yn ethnig*, wedi'ch lleoli yng Nghymru, a bod ar gam yn eich gwaith i elwa'n sylweddol o'r dysgu a'r datblygiad a gynigir gan y cyfle hwn, a bod â sail resymegol glir dros fod eisiau cymryd rhan.

Byddai'r rôl yn gofyn i chi dreulio 100 diwrnod wedi'u rhannu rhwng amgueddfa a sefydliad celfyddydau gweledol, a byddai hynny'n cynnwys cymryd rhan mewn pedwar digwyddiad rhwydweithio a gynhelir yn ystod y prosiect. Bydd y rhain yn cynnwys y gweithwyr creadigol proffesiynol, y sefydliadau celfyddydau gweledol ac amgueddfeydd.

Byddai gofyn i chi ymgysylltu â grwpiau cymunedol i ddarganfod safbwyntiau a straeon newydd, gyda'r nod o sicrhau newid cynyddol ar lefel unigol, cymunedol a sefydliadol.

Byddai gofyn i chi hefyd gymryd rhan mewn gwerthusiad, dan arweiniad Cyngor Celfyddydau Cymru mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru drwy gydol y rhaglen. Y nod fydd lledaenu dysgu i'r sector i helpu i ddyfnhau

dealltwriaeth a phrofiad o'r gwaith, gan asesu effaith y rhaglen Safbwynt(iau) gan ddefnyddio'r chwe bloc adeiladu canlynol;

Gofod - Dad-wladychu mannau cyhoeddus, megis amgueddfeydd ac orielau.
Cymuned - Hwyluso ymgysylltiad dyfnach ac ehangach â'r gymuned.
Dysgu - Defnyddio casgliadau, arddangosiadau ac arddangosfeydd fel catalyddion ar gyfer dysgu, yn enwedig mewn perthynas â gwladychiaeth, caethwasiaeth, ac Ymerodraeth.
Datblygiad Ymarferwyr Creadigol - Hwyluso datblygiad Gweithwyr Creadigol Proffesiynol o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol.
Datblygu'r Sector - Datblygu sefydliadau celfyddydau gweledol a sector treftadaeth yng Nghymru sy'n weithredol wrth-hiliol ac yn fwy croestoriadol.
Democrateiddio a Dad-wladychu - Datblygu prosesau a ffyrdd newydd o weithio sy'n ddemocrataidd ac yn groestoriadol gan weithio tuag at sector celfyddydau a threftadaeth gwrth-hiliol.

*****Rydym yn diffinio 'yn amrywiol yn ddiwylliannol ac yn ethnig' fel hyn:

Unrhyw un o'r gymuned alltud Affricanaidd, Asiaidd, Caribïaidd, Sbaenaidd, Latino, Dwyrain Ewrop neu'r Dwyrain Canol yng Nghymru

Unrhyw un sy'n nodi ei fod o grŵp ethnig nad yw'n Wyn yn unig.

Unrhyw un o Gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

DS - cysylltwch â ni yn uniongyrchol yn info@galeriesimpsonswansea.com os oes gennych unrhyw ofynion mynediad er mwyn cwblhau'r cais hwn.

Yr hyn yr ydym yn ei gynnig

- £25,000 am 100 diwrnod o waith i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2025
- Cefnogaeth broffesiynol a thechnegol ar gyfer datblygu gweithiau celf, arddangosfeydd a digwyddiadau
- Cefnogaeth gan dîm GS Artists ym mhob agwedd ar y prosiect hwn, gan gynnwys sicrhau bod holl ofynion yr artistiaid yn cael eu bodloni a diogelu eu llesiant.

Dyddiadau Allweddol

Cyflwyno – 5pm ar 18fed Mehefin

Cyfweliadau – rhwng dydd Llun Mehefin 26ain a dydd Gwener 30ain Mehefin

12fed Gorffennaf - digwyddiad rhwydweithio cyntaf, yn bersonol (Caerdydd)

19eg Gorffennaf – hanner diwrnod i'r Ymarferwyr Creadigol (rhithwir)

Bydd angen cwblhau'r holl waith erbyn mis Mawrth 2025 – diwedd y rhaglen.

Sut i wneud Cais

Gwneir cais trwy hyd at **dair tudalen o A4** (PDF yn ddymunol), gyda maint ffont lleiaf o 12. Gallwch hefyd gynnwys negeseuon llais neu fideo hyd at 10 munud yr un. Cyflwynwch erbyn 5pm ar 18fed Mehefin i info@galeriesimpsonswansea.com (byddwch yn derbyn e-bost yn cydnabod derbyn y cais)

Dylai eich cyflwyniad gynnwys y canlynol:

Dywedwch wrthym pam eich bod am gymryd rhan yn y rhaglen Safbwyntiau. Beth ydych chi'n gobeithio ei ennill neu ei gyflawni?

Rhowch wybod i ni am eich profiad o weithio ar y canlynol:

-Prosiectau gwrth-hiliaeth/dad-wladychu?

-Ymgysylltu â grwpiau cymunedol/unigolion o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol?

Rhowch wybodaeth am eich ymarfer artistig gan ddarparu enghreifftiau ar ffurf delweddau llonydd, dolenni i'ch gwefan neu ddolen i rîl fideo (uchafswm o 5 munud) o adnodd ar-lein fel Vimeo neu YouTube.

Unrhyw gwestiynau cysylltwch â: info@galeriesimpsonswansea.com